

Y Gymanfa Gyffredinol

8-10 Gorffennaf 2019

Y mae'n fraint eich gwahodd i ymuno â ni eleni ar gyfer ein Cymanfa flynyddol, fydd yn cael ei chynnal ym Mhrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam, gydag oedfaon y nos yng nghapel y Trinity.

Mae'r Gymanfa yn agored i bob Gweinidog a blaenor yn y Cyfundeb, a gobeithio, ochr yn ochr â'r cynrychiolwyr, y bydd nifer ohonoch yn penderfynu ymuno gyda ni wrth inni geisio dirnad ewylls yr Arglwydd ar ein cyfer dros y cyfnod nesaf hwn yn ein hanes.

Mi fydd y rhai mwyaf praff yn nodi ein bod yn dychwelyd i Wrecsam am yr eildro mewn dwy flynedd! Yr ydym yn mynd yno ar wahoddiad ein Llywydd, y Parch Brian Matthews, ac mae'n siŵr y byddwch yn gweddïo drosto, a'n Llywydd Etholedig, y Parchedig Marcus Robinson, fydd yn cymryd at y gadair yn yr oedfa nos Fawrth.

Eleni, ochr yn ochr â'r gwaith arferol o dderbyn adroddiadau am weithgarwch y flwyddyn a aeth heibio, mi fyddwn hefyd yn clywed amryw o argymhellion wrth inni symud ymlaen.

Mae yna adolygiad ar ein strwythurau yn dwyn argymhellion interim fydd yn lleihau ychydig ar y cyfarfodydd y byddwn yn eu cynnal.

Ar yr un pryd fe fyddwn yn argymhell ein bod yn symud y gwaith o ystyried ceisiadau am werthu a rhyddhau arian fel bod hyn yn cael ei drafod bellach gan yr Henaduriaeth a'r Adran Adnoddau.

Mi fydd Bwrdd y Gymanfa hefyd yn rhoi cyfle i drafod ein hymateb i geisiadau posibl i Gronfa Treftadaeth y Loteri ymhlith pethau eraill, ac yn sicr yn awyddus i wrando ar leisiau gwahanol sy'n bwydo i mewn i'n trafodaeth.



Ar yr un pryd, mi fydd angen ail ystyried rôl allweddol y Gymdeithasfa fel Llys i rannu profiad, cymdeithas a gweddi, a daw argymheliad i'r tair Talaith gyfarfod gyda'i gilydd yn yr Hydref yn flynyddol. Byddwn hefyd yn clywed ymateb Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru i'r drafodaeth am gynnal un cyfarfod blynyddol ynghyd, ac am rannu rhywfaint o'n gwaith gweinyddol, ac am sicrhau cydbwyllgorau i drafod materion sy'n gyffredin inni.

Yng ngoleuni ein profiad mewn gweinidogaeth a chenhadaeth daw adroddiad o'r Adran Gweinidogaethau ar y strategaethau y mae'r Henaduriaethau wedi eu cyflwyno, a byddwn yn gweld sut y mae hyn yn hyrwyddo ein dyhead i weld y gwaith yn cael ei sylweddoli o ganolfannau hyfyw gyda chefnogaeth briodol. Mae strategaeth wedi bod yn flaenoriaeth inni ers blynyddoedd bellach, ac yr ydym yn awyddus i finiogi hyn wrth fynd ymlaen, gan gydnabod na allwn wneud popeth na bod ym mhobman.

Yn ein cyfarfodydd cyhoeddus, mi fydd y Llywydd yn arwain oedfa gymun a choffâd nos Lun, cyn cyflwyno ei araith ymadawol nos Fawrth. Bydd y ddwy oedfa yng nghapel y Trinity am 7.30. Gweinidog y Trinity fydd ein Caplan eleni, y Parch David Jones, a'r pregethwr yn yr oedfa gymun fydd y Parch Neil Kirkham. Mi fydd dwy ddarlith gyhoeddus hefyd yn cael eu traddodi, y Ddarlith Hanes gan y Parch Gerallt Lloyd Evans, a'r Ddarlith Davies gan y Parch Evan Morgan.

Gweddïwch drosom. Dros ein gwaith, ein cymdeithas a'n gweledigaeth.

*Meirion Morris,
Ysgrifennydd Cyffredinol.*



**EGLWYS
BRESBYTERAIDD
CYMRU**

CYFARFODYDD CYHOEDDUS Y GYMANFA GYFFREDINOL
8-10 Gorffennaf, 2019
Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam / Eglwys Trinity, Wrecsam

Nos Lun, 8 Gorffennaf – 7.30 pm
GWASANAETH CYMUN A CHOFFÂD
(Eglwys Trinity, Wrecsam)

I Bregethu: Parchg. Neil Kirkham, BSc, Llandudno

Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf
11.45 am – Y DDARLITH DAVIES
(Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam)

Darlithydd: Parchg. T. Evan Morgan, BD, Caerdydd
Testun: 'Yr Eglwys Gynhwysol'

7.30 pm – ARAITH YMADAWOL Y LLYWYDD
(Eglwys Trinity, Wrecsam)

Y Parchg. Brian Matthews, BD, Wrecsam

TROSGLWYDDO'R LLYWYDDIAETH

Y Parchg. Marcus Robinson, BD, RN, Caernarfon

Dydd Mercher, 10 Gorffennaf
11.45 am – DARLITH Y GYMDEITHAS HANES
(Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam)

Darlithydd: Parchg Gerallt Lloyd Evans, BA
Testun: 'Er mwyn i'r to sy'n codi wybod' – Salm 78:6

YR HOLL GYFARFODYDD I'W CYNNAL YN DDWYIEITHOG